Mr Gareth Rhys Jones
Llanybydder C.P. School
Llanybydder
Carmarthenshire
SA40 9RP

06/05/2025

Annwyl Mr Gareth Rhys Jones

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Llanybydder yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag un argymhelliad o'u harolygiad craidd ym mis Mehefin 2022. Yn ogystal, edrychwyd ar gynnydd yr ysgol wrth gyflawni gofynion un flaenoriaeth yng nghynllun gwella'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-2025. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y meysydd ffocws hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau
- siarad â disgyblion
- cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- craffu ar waith disgyblion
- craffu ar ddogfennaeth

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth berthnasol o gynnydd yr ysgol tuag at gyflawni gofynion y meysydd ffocws.

## Ffocws yr ymweliad

### Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, sy'n cynnwys y rhai sydd yn newydd i'r Gymraeg, yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith. Mae eu hagweddau at ddysgu'n gadarn a maent yn mwynhau ysgrifennu mewn profiadau amrywiol.
- Mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n fwriadus wrth ddatblygu'r ddarpariaeth i wella medrau ysgrifennu disgyblion. Trwy hyn, mae staff wedi cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau ysgrifennu estynedig yn llwyddiannus.
- Mae staff yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r modd mae disgyblion yn datblygu eu medrau llafar a llythrennedd yn adeiladol dros amser. O ganlyniad, mae staff wedi llunio trosolwg iaith sy'n nodi ffurfiau ysgrifennu a chyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Mae athrawon wedi rhannu'r arferion effeithiol am gefnogi disgyblion mewn ysgrifennu yn fwriadus gyda staff yr awdurdod a'r rhanbarth.
- Trwy gynhaliaeth ysbrydoledig a chynhaliol staff, mae disgyblion yn magu hyder i ddatblygu eu medrau llafar mewn ystod berthnasol o gyd-destunau dysgu. Mae hyn yn ei dro, yn cefnogi'r disgyblion i fwynhau a datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig mewn amrywiol gyfleoedd dysgu.
- Mae bron bob un o'r disgyblion ieuengaf yn arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau wrth greu marciau mawr. Dros amser, maent yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn gadarn wrth ffurfio llythrennau yn gynyddol gywir. Mae ymwybyddiaeth ffonolegol disgyblion yn gadarn ac maent yn datblygu eu medrau i sillafu ac ysgrifennu geiriau a brawddegau syml yn llwyddiannus.
- Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cyson. Maent yn datblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o nodweddion iaith, fel cyflythrennu, cysyllteiriau a chwestiynau rhethregol, ac yn gwneud cynnydd perthnasol yn eu sillafu a'u hatalnodi.
- Trwy adborth a dulliau asesu effeithiol a chyson, mae dealltwriaeth disgyblion o'r hyn maent yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wella, yn gadarn. O ganlyniad, mae hyn yn eu cefnogi i wneud cynnydd cyson dros amser.

## Datblygu medrau digidol disgyblion ymhellach trwy gynnig cyfleoedd bwriadus iddynt eu cymhwyso ar draws y meysydd dysgu

- Mae arweinwyr wedi dadansoddi holiaduron staff i ganfod eu hyder a'u dealltwriaeth o'r fframwaith. Mae staff wedi mynychu hyfforddiant pwrpasol sydd wedi ehangu a chryfhau eu dealltwriaeth o feysydd penodol o'r fframwaith. Maent wedi dysgu am raglenni ac adnoddau cyfredol sy'n arfau effeithiol i'r athrawon wrth iddynt gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau digidol.
- Mae staff wedi mapio gofynion a chynnwys y fframwaith ddigidol yn briodol er mwyn sicrhau datblygiad a dilyniant ym medrau'r disgyblion. Erbyn hyn, mae staff yn defnyddio ystod eang o adnoddau sydd ar gael i athrawon er mwyn hyrwyddo a chyfoethogi profiadau dysgu digidol i ddisgyblion. Mae staff wedi datblygu portffolio digidol ysgol gyfan sy'n cynorthwyo staff i ddeall y math o weithgareddau sy'n adlewyrchu ansawdd a safon cynyddol disgyblion yn y medrau.
- Mae staff y disgyblion ieuengaf yn darparu cyfleoedd eang iddynt ddatblygu eu medrau digidol yn fedrus. Maent yn deall datblygiad plant yn dda ac yn sicrhau bod eu gwaith yn addas yn unol a'u hoed a'u cam datblygu. Mae staff yn cyflwyno tasgau digidol i bwrpasau penodol ar draws y meysydd dysgu, yn aml fel cyfrwng i hybu medrau ehangach.
- Mae bron bob un o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio offer digidol yn hyderus. Maent yn dysgu yn unigol, gyda phartner ac fel grŵp ar dasgau digidol yn llwyddiannus. Gydag amser, maent yn dod yn gynyddol annibynnol wrth ddefnyddio offer digidol at bwrpasau gwahanol.
- Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn defnyddio amrywiaeth berthnasol o raglenni ac adnoddau digidol yn hyderus. Maent yn defnyddio eu medrau codio i lywio teclynnau symudol yn feistrolgar ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o'r feddalwedd mwyaf perthnasol i gyflwyno gwybodaeth. Mae'r disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o ystod gynyddol o elfennau digidol ac mae eu deallusrwydd a'u hyfedredd yn dechrau gwreiddio'n llwyddiannus.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692184

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol